**P2122-144**

**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**CYLCH GORCHWYL**
**Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

1. *Adrodd*

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn adrodd i'r Cyngor.

2. *Amlder Cyfarfodydd*

Dylai'r Pwyllgor gwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd arbennig. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfleusterau e-bost neu ffôn/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol.

3. *Cyfansoddiad*

Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys:
- Aelod Lleyg o'r Cyngor (Cadeirydd);
- Dirprwy Gangellorion gan gynnwys Cadeirydd y Cyngor;
- Tri aelod lleyg ychwanegol o'r Cyngor.

Gellir cyfethol aelodau ychwanegol ag arbenigedd drwy argymhelliad i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau.

Nid yw aelodau cyfetholedig yn aelodau o'r Cyngor, ac felly nid ydynt yn aelodau o Ymddiriedolwyr y Brifysgol. Fodd bynnag, maent yn aelodau llawn o'r Pwyllgor y cawsant eu cyfethol iddo, ac maent yn gwneud cyfraniad allweddol at fusnes y pwyllgor.

Mae aelodau cyfetholedig o is-bwyllgorau'r Cyngor yn unigolion lleyg annibynnol a benodir i gynnig cyngor a mewnbwn arbenigol i fusnes yr is-bwyllgorau. Diben deiliaid y rôl yw darparu cyngor arbenigol ychwanegol o fewn fframwaith llywodraethu'r Brifysgol, heb gynyddu aelodau lleyg y Cyngor.

Ni ddylai fod gan aelodau lleyg pwyllgorau fuddiannau ariannol o bwys yn y Brifysgol.

Dylid rhoi 'sylw dyladwy ' i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

4. *Gohebiaeth Freintiedig ag Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cyngor*

Mae braint yn caniatáu i unigolion ac endidau wrthod datgelu deunydd cyfrinachol yng nghyd-destun cyngor cyfreithiol, cymrodeddu, cyfreithia ac ymchwiliadau. Gall braint fod yn berthnasol i gyngor cyfreithiol a materion cyfreithia, ac mae'n cynnwys trafodaethau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a derbyn cyngor cyfreithiol (ysgrifenedig ac ar lafar). Ceir rheolau llym ynghylch pryd mae braint yn berthnasol, a gellir colli braint drwy ddosbarthu deunydd breintiedig heb fesurau diogelu digonol.
Rhagwelir y bydd rhaid i holl aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau, yn ystod tymor eu penodiad, ymwneud â gohebiaeth/gwybodaeth freintiedig, a rhaid iddynt weithredu yn unol â Chôd Ymarfer Cyngor y Brifysgol ar gyfer Aelodau a'r Rheoliadau ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd mewn perthynas â materion o'r fath.

5. *Tymhorau Penodiad*

Penodir aelodau am bedair blynedd yn y lle cyntaf, a gellir estyn penodiad am ail dymor, heb fod yn hwy na phedair blynedd.

6. *Presenoldeb*

Rhoddir cymorth ysgrifenyddol i'r Pwyllgor gan Ysgrifennydd y Brifysgol.

Dylai'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (neu gynrychiolydd) fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a dylai Adnoddau Dynol ddarparu cymorth ysgrifenyddol ychwanegol, os bydd ei angen, i'r Pwyllgor.

Dylai'r Pwyllgor wahodd yr Is-ganghellor a'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu i ddod i rannau o'r cyfarfodydd, at ddibenion cynghori, pan fydd angen, i ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

Ni ddylai unrhyw gyflogai fod yn bresennol pan fydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar wobrwyo aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

7. *Cworwm*

Bydd tri aelod o'r Pwyllgor yn ddigon ar gyfer cworwm.

8. *Diben*

Diben y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw pennu Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol a'r strategaeth ar gyfer pennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau'r Is-ganghellor ac aelodau ei Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

9. *Cylch Gorchwyl*

Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

1. Datblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol a fydd yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth uwch-gyflogeion y Brifysgol ar Radd 11 a chyflogeion dynodedig ar radd 10a;

2. Adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth sy'n cynnwys y canlynol:
    - Yr Is-ganghellor;
    - Y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu;
    - Y Profost;
    - Dirprwy Is-gangellorion;
    - Y Prif Swyddog Ariannol;

   gan ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yn y sector Prifysgolion ac mewn mannau eraill fel y bo'n briodol;

   Bydd y Pwyllgor hefyd yn cytuno ar becynnau cydnabyddiaeth ariannol y rhai hynny sy'n adrodd yn uniongyrchol i aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth;

3. Pennu'r strategaeth, y polisi a'r paramedrau ar gyfer adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol a buddion yr holl gyflogeion ar Radd 11 o fewn cwmpas y Pwyllgor Cyflogau Athrawol ac Uwch;

4. Ystyried, ac os bernir ei bod hi'n briodol, gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Cyflogau Athrawol ac Uwch;

5. Bod yn gyfrifol am becynnau diswyddo y cytunir arnynt yn y Brifysgol a bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ac yn gyfrifol amdani pan fydd hyn yn ymwneud â threfniadau diswyddo cyflogeion gradd 11;

6. Derbyn adroddiad ar gamau gweithredu perthnasol a gymerir gan y Cadeirydd rhwng cyfarfodydd;

7. Cytuno ar fframwaith blynyddol o waith ac adolygu ac adrodd am gynnydd drwy ddarparu adroddiad blynyddol (ar gyfer y Cyngor a Datganiadau Ariannol y Brifysgol), sy'n dryloyw, yn cyd-fynd ag argymhellion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-staff Addysg Uwch ac yn bodloni gofynion llywodraethu da;

8. Cytuno ar ba wybodaeth y dylid ei chyhoeddi am waith y Pwyllgor a threfniadau gwobrwyo uwch-gyflogeion.

*Cymeradwywyd gan y Cyngor: Hydref 2021*
*Dyddiad Adolygu Nesaf: Hydref 2022*
*Diwygiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor: 27 Mawrth 2023*